

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AR NOS LUN 27AIN O CHWEFROR 2017 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Jill Evans, Hywel Davies, Elfed Williams, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iona Edwards-Jones, Iwan Jones, Falmai Evans a Stanley Williams.

1A. YMDDISWYDDIAD.

Derbyniwyd y Cyngor ymddiswyddiad ysgrifenedig oddi wrth Gwennan Hughes fel Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch. Wrth dderbyn yr ymddiswyddiad, penderfynwyd y Clerc gyrru llythyr o ddiolch i Gwennan Hughes am ei wasanaeth fel Cynghorydd Cymunedol dros lawer blwyddyn ac i ddymuno'r gorau iddi yn y dyfodol.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Ionawr 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi symud y teiars a'r ochr y ffordd yn Carreg-y-Pennill a Llwyn Rhos yn Llanrhaeadr.

B. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Dymchwel yr ystafell wydr presennol ac adeiladu estyniad cefn unllaw'r yn 4 Pont-y-Bedol, Llanrhaeadr.

2. Addasiadau ac estyniad i annedd yn Tyn Bedw, Prion.

4. SGIPIADAU CYMUNEDOL.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc ynglŷn ar logi'r sgipiadau cymunedol fel y canlynol:-

A: Dim ymateb gan City Skips o Lanelwy.

B. Nid mae Cwmni I.T. Williams o Rhuthun yn darparu sgipiadau ar gyfer llanast tai na'r Swyddog i edrych ar ôl sgip ar y safle.

C. CAD Recycling o Ddinbych - derbyniwyd y prisiau canlynol yn cynnwys Swyddog ar y safle gyda'r Sgip:-

1. Safle wrth Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr ar 18fed o Ebrill 2017 - £415.20 yn cynnwys Treth ar Werth.

2. Safle wrth Ysgol Pant Pastynog, Prion ar 20fed o Ebrill 2017 - £463.20 yn cynnwys Treth ar Werth.

3. Nid oes yna leoliad addas yn Saron i ddarparu'r Sgip.

Penderfynwyd derbyn y prisiau uchod ac i'r Cynghorwyr Philip Williams a Bari Evans ddarparu'r posteri yn hysbysu'r dyddiadau'r Sgipiadau yn y gymuned.

5. CYLLID.

Taliadau:-

A. Swyddfa Archwilio Cymru am waith yr Archwiliwr Allanol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 - £195.15.

B. Un Llais Cymru – Tal Aelodaeth am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £133.00.

C. Y Lleng Prydeinig Brenhinol (Cangen Dinbych) am Bobi Coch i'r Gwasanaeth Sul y Cofio ar Ddydd Sul 13eg o Dachwedd 2016 - £23.00.

D. Cymorth Cynllunio Cymru i'r Cynghorydd Jill Evans fynychu cyfarfod yn Llandudno ar brynhawn Mawrth 28ain o Fawrth 2017 - £16.43.

6. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH ARIANNOL Y CYNGOR.

Derbyniwyd ceisiadau oddi wrth y mudiadau canlynol a phenderfynwyd yr aelodau ar y rhoddion canlynol:-

A. Eglwys Dyfnog Sant Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch - £400.00.

B. Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch - £750.00.

C. Caban-y-Plwyf, Prion - £250.00.

7. CYN CAIS CYNLLUNIO MAES CARAFANAU CAE'R MYNYDD, SARON.

Ar ôl derbyn gwybodaeth lafar bod perchennog Maes Carafanau Cae'r Mynydd, Saron wedi dechrau ar y datblygiad cyn i'r cais cynllunio fynd i'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych, penderfynwyd gwahodd yr Asiant, Mr Philip Jones o Gwmni Savills, i'r cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y cyn cais cynllunio ymhellach gan fod Mr Robert Barton (Perchennog Safle Maes Carafanau Cae'r Mynydd) wedi cychwyn ar y datblygiad.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid derbyniwyd unrhyw gais cynllunio i'w thrafod.

9. ETHOLIADAU CYNGHORAU CYMUNEDOL 4YDD O FAI 2017.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc bydd "Pecynnau Enwebu" ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol y Cyngor ar 4ydd o Fai 2017 yn cael ei dosbarthu i'r Clerc ar 6ed o Fawrth 2017 i'w ddsbarthu i'r aelodaeth bresennol y Cyngor.

10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd adroddiadau er wybodaeth.

11. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Mwd ar y ffordd rhwng yr Hen Ysgol a Phen Bryn Llan yn Llanrhaeadr.

2. Mwd ar y ffordd o flaen y Blwch Post gyferbyn a'r Stad Bryn Llan yn Llanrhaeadr.

3. Arwyddion pentrefi ar goll ar y polyn groesffordd Pen-y-groes, Prion.

4. Tyllau yn y ffordd wrth Nant, Prion.

5. Twll yn y ffordd wrth y Blwch Post yn groesffordd Pen-y-groes ym Mhrion.

6. Cyflwr y ffordd rhwng Tŷ Canol a Rossa Fawr ym Mhrion eisiau sylw.

7. Coeden wedi cychwyn dŵad i lawr ar allt Saron.

8. Coeden wedi disgyn ar y llwybr rhwng Siop-y-Pentre a Stad Cae'r Felin yn Llanrhaeadr.

B. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams fod Llywodraethwyr Ysgol Bro Cinmeirch yn trafod dewis trafndiaeth i Ysgolion Uwchradd Brynhyfryd, Rhuthun a Glan Clwyd, Llanelwy o bentrefi Llanrhaeadr, Prion a Saron.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Fawrth 2017 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.